**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2023 am 2.30 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd R Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd D Evans

## 149 Croeso ac Ymddiheuriadau

Daeth ymddiheuriad am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Tomkinson.

## 150 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

## 151 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn

nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**152 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**153 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 09.11.23 yn rhai cywir.

**154 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**155 CAIS RHIF: 23/0412**

**Annedd newydd â phedair ystafell wely gyda garej ar wahân a dau le parcio ychwanegol. TIR GER 4 STRYD NASH, ABERCYNON, ABERPENNAR, CF45 4PB**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau ohirio penderfynu ar y cais hyd nes cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn caniatáu rhagor o amser i Swyddogion Cynllunio adolygu gwybodaeth bellach a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais.

**156 CAIS RHIF: 23/0514/10**

**Datblygiad preswyl o 20 o fflatiau ag un a dwy ystafell wely, gyda gwaith tirlunio, trin ffiniau a mannau parcio cysylltiedig (Diwygiwyd y disgrifiad wrth dderbyn y cynlluniau diwygiedig ar 31/10/23, lleihau nifer yr unedau a chael gwared ar y llawr uchaf). Safle Hen Glwb Cymdeithas y Llynges Frenhinol, 233 Stryd y Llys, Tonypandy, CF40 2RF.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr N Ahmed (Asiant)
- Mr A Silver (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Mr N Ahmed, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 5 Hydref 2023, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio adroddiad pellach yn amlygu i'r Aelodau y newidiadau a wnaed gan yr Ymgeisydd i'r cynlluniau gwreiddiol a rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan amlygu'r cryfderau a'r gwendidau posibl. Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais am y rheswm a amlinellwyd yn yr adroddiad ac ar sail yr amodau oedd yn yr adroddiad diwygiedig.

**(Nodwch:** Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes am gofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod).

**157 CAIS RHIF: 23/0904**

**Estyniad deulawr ar un ochr, estyniad un llawr ar yr ochr arall, trawsnewid yr atig a gwaith peirianneg i'r cefn sy'n cynnwys gwaith i wneud y tir yn wastad a grisiau mynediad. 45 STRYD Y BRYN, HENDREFORGAN, GILFACH-GOCH, PORTH, CF39 8TW**

**(Nodwch:** Ymunodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell â'r cyfarfod ar yr adeg yma.)

**(Nodwch:** Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis fuddiant personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas â Chais 23/0641:
"Mae'r Ymgeisydd yn fy nghyflogi ac rydw i wedi gweithio ar y safle yma.")

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms A Davies (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a gyflwynwyd gan eiddo cyfagos yn esbonio eu gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**(Nodwch:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell o'r bleidlais gan nad oedd e'n bresennol ar gyfer yr eitem cyfan.)

**158 CAIS RHIF: 23/1115**

**Datblygu 10 annedd fforddiadwy a gwaith cysylltiedig. TIR YN HEOL Y DDERWEN, YSTRAD, PENTRE, CF41 7QQ**

**(Nodwch:** Ar yr adeg yma, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Emanuel fuddiant personol sy'n rhagfarnu ar gyfer y cais yma:
"Mae'r ymgeisydd, Trivallis, yn fy nghyflogi."
Felly, gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma ac ni chymerodd ran yn y ddadl na'r bleidlais.)

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms Abi Hawke (Asiant). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais wedi'i nodi uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth **PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn yn ddarostyngedig i gwblhau cytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal a'u cadw yn unedau fforddiadwy, i'r diben parhaus o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd.

**159 CAIS RHIF: 23/0641**

**Cydymffurfio ag amod 34 (Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy) o 10/0845/34 (i'r graddau ag y bo'n berthnasol i Gamau 3 a 4). TIR AR HEN SAFLE GLO BRIG A THIR I'R GOGLEDD O'R A473, LLANILID (CAMAU 3 A 4)**

**(Nodwch:** Dychwelodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Emanuel i'r cyfarfod ar ddechrau'r eitem yma a gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes y cyfarfod ar yr adeg yma ac ni ddychwelodd.)

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn y cais uchod, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.)

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Evans nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynglŷn â'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Eiliwyd cynnig i ohirio'r cais ond methodd.)

160 **CAIS RHIF: 22/1279**

**Troi hen dafarndy'n fflatiau. GWESTY'R FULL MOON, HEOL CAERDYDD, ABERAMAN, ABERDÂR, CF44 7HH**

**(Nodwch:** Ar yr adeg yma, dychwelodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis i'r cyfarfod.)

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

161 **CAIS RHIF: 23/0118**

**Estyniadau i greu gwesty â 10 gwely gyda bar, bwyty, mannau lles ac estyniad i'r maes parcio. Estyniad i gefn yr eiddo i gynnwys paneli solar (Derbyniwyd Arolwg Coed ar 05/06/23) (Derbyniwyd Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol ar 12/06/23) (Derbyniwyd Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol newydd ar 29/06/23) (Derbyniwyd Arolygon Ystlumod Ychwanegol ar 06/10/23) GWESTY NAVIGATION HOUSE, Y BASN, HEOL CILFYNYDD, ABERCYNON, ABERPENNAR, CF45 4RR**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

162 **CAIS RHIF: 23/1068**

**Adeiladu parc sglefrio ar gyfer pob math o sglefrio – byrddau sglefrio, BMX, WCMX, sgwteri, ac ati, gyda gwaith tirlunio a draenio cysylltiedig. PARC LLANHARI, HEOL LLANHARI, LLANHARI, PONT-Y-CLUN**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

163 **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd, Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a

Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 13/11/2023 a 01/12/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**